# Ymchwiliad yr Is-bwyllgor

**RDC(3)-19-09 (p1): 10 December 2010**

## Datblygu Gwledig i mewn i Les Anifeiliaid a Hylendid Cig: Cylch Gwaith

### Pwrpas

1. Mae'r papur hwn yn gwahodd Aelodau i nodi'r cylch gwaith ar gyfer ymchwiliad craffu'r Is-bwyllgor i mewn i Les Anifeiliaid a Hylendid Cig mewn lladd-dai yng Nghymru.

### Cefndir

2. Yn ei gyfarfod ar 1 Hydref 2009, ystyriwyd papur yn amlinellu opsiynau ar gyfer ymchwiliadau yn y dyfodol gan y Pwyllgor, a chytunwyd y dylid edrych ar les anifeiliaid a hylendid cig mewn lladd-dai yng Nghymru fel yr ymchwiliad craffu nesaf.

Wedi hynny, cytunwyd cylch gwaith ar gyfer yr ymchwiliad gan aelodau y tu allan i gyfarfod y pwyllgor.

3. Cytunwyd ar y cylch gwaith canlynol ar gyfer yr ymchwiliad:

-Asesu effeithiolrwydd y trefniadau presennol ar gyfer sicrhau safonau o ran hylendid cig a lles anifeiliaid mewn lladd-dai, ac ystyried pa gamau pellach, os o gwbl, y gellid eu cymryd i sicrhau y caiff y ddeddfwriaeth berthnasol ei gweithredu'n iawn;

-Gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ac unrhyw gyrff perthnasol eraill.

Bydd yr ymchwiliad yn ystyried:

-Pa mor effeithiol yw'r strwythurau gorfodi presennol ar gyfer safonau hylendid cig a lles anifeiliaid mewn lladd-dai;

-Sut y dylid darparu trefniadau goruchwyliaeth filfeddygol mewn lladd-dai yng Nghymru?

-Pa mor effeithiol yw'r berthynas rhwng y Gwasanaeth Hylendid Cig a'r diwydiant?

-A allai Llywodraeth Cynulliad Cymru gymryd unrhyw gamau pellach i sicrhau y caiff y ddeddfwriaeth berthnasol ar hylendid cig a lles anifeiliaid ei gweithredu'n iawn mewn lladd-dai yng Nghymru?

### Argymhelliad

4. Gwahoddir Aelodau i nodi yn ffurfiol y cylch gwaith ar gyfer eu hymchwiliad i mewn I Les Anifeiliaid a Hylendid Cig.